



Rob Humphreys  
Cadeirydd  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  
Tŷ Afon  
Heol Bedwas  
Bedwas  
Caerffili  
CF83 8WT

18 Mawrth 2024

Annwyl Rob,

### **Llythyr Cylch Gwaith CCAUC 2024-25**

1. Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau dyraniadau cyllid CCAUC ar gyfer 2024-25 ac i nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion yr ydym wedi cytuno arnynt ar gyfer y flwyddyn i ddod. Er gwaethaf yr heriau ariannol parhaus, rwy'n falch fy mod wedi gallu dyrannu cyfanswm o **£197,756,000** i gefnogi addysg uwch yng Nghymru yn 2024-25.
2. Fel y nodais yn dilyn cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 ym mis Rhagfyr 2023, mae cyllid cyhoeddus yn parhau i wynebu heriau sylweddol, sydd wedi arwain at orfod gwneud penderfyniadau anodd ar draws y llywodraeth i reoli cyllidebau. O ganlyniad, bydd bwrsariaethau cymhelliant ôl-raddedig newydd i fyfyrwyr ar gyrsiau STEM a Meistr cyfrwng Cymraeg, ac i fyfyrwyr dros 60 oed, yn dod i ben, gan arwain at ostyngiad o £3.2m i'r setliad cymorth grant. Rwyf wedi dyrannu £0.8m i ariannu'r bwrsariaethau presennol ar gyfer myfyrwyr sy'n parhau i ddilyn cyrsiau.
3. Mae'n arbennig o bwysig mewn cyfnod o gyfyngiadau cyllidol bod darparwyr addysg uwch yn cael eu hannog a'u cefnogi i nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer cydweithredu ac arbedion effeithlonrwydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â CCAUC a'r sector i gyflawni'r nodau hyn cyn belled ag y bo modd.
4. Yng ngoleuni'r amserlen sydd wedi'i haddasu ar gyfer rhoi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn') ar waith yn ffurfiol, mae'n angenrheidiol rhoi trefniadau cylch gwaith ar waith ar gyfer y Cyngor Cyllido Addysg Uwch (CCAUC). Bydd y llythyr cylch gwaith hwn yn parhau ar waith hyd nes y bydd y Comisiwn yn weithredol yn ffurfiol – a disgwylir i hynny ddigwydd ar 1 Awst 2024 – neu hyd nes y bydd y cyfnod pontio i'r Comisiwn yn dod i ben.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

5. Mae cryn dipyn o waith wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf i baratoi ar gyfer sefydlu'r Comisiwn, gan gynnwys cyhoeddi Datganiad Llywodraeth Cymru o Flaenoriaethau. Mae'r Datganiad o Flaenoriaethau, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, yn nodi gweledigaeth y llywodraeth ar gyfer addysg ôl-16 yng Nghymru, a'i nod yw cefnogi'r datblygiad o gyfeiriad a blaenoriaethau strategol y Comisiwn. Hoffwn i CCAUC roi sylw i'r Datganiad wrth wneud penderfyniadau, o ystyried ei fod yn cynrychioli uchelgeisiau cyffredinol y Llywodraeth. Rwy'n ddiolchgar iawn i CCAUC am ei gyfraniad sydd wedi'i ategu gan ddull rhagweithiol a phragmatig o gefnogi'r cyfnod pontio, tra bo'n cynnal swyddogaethau hanfodol a gweithgareddau busnes fel arfer CCAUC yn llwyddiannus.

## **Yr Amcanion Strategol a'r Cyd-destun**

6. Hoffwn ddarparu cysondeb lle bo hynny'n bosibl tra bo'r system addysg drydyddol mewn cyfnod pontio. Gyda hyn mewn golwg, nid wyf yn disgwyl i CCAUC gynhyrchu cynllun gweithredol newydd, ond yn hytrach gall diweddarau ac ymestyn un sydd eisoes mewn bodolaeth hyd at 1 Awst 2024. Yn yr un modd, dylai CCAUC weithio gyda rheoleiddwyr perthnasol i gytuno ar ddull pragmatig tebyg o gyflawni ei ddyletswyddau adrodd statudol, lle bo hynny'n ymarferol.
7. Rwy'n disgwyl i waith CCAUC ganolbwyntio ar gefnogi staff CCAUC drwy'r cyfnod pontio hwn, gan lwyddo i ddiddymu CCAUC a chefnogi swyddogion Llywodraeth Cymru i sefydlu'r trefniadau goruchwyllo a rheoleiddio newydd.
8. Bydd cynnal cynaliadwyedd y sector yn ystod y cyfnod hwn yn hanfodol. Felly, bydd sicrhau bod ei gyllid hanfodol a'i swyddogaethau rheoleiddiol yn cael eu darparu'n effeithiol ac yn barhaus (gan gynnwys dyrannu cyllid sefydliadol ar gyfer y flwyddyn academaidd) hefyd yn flaenoriaeth i CCAUC. Yn y cyd-destun hwn, dylech gymryd yn ganiataol y gall CCAUC barhau i weithredu a datblygu ei brosesau cyllido a rheoleiddio yn unol â'i bwerau a'i brosesau cyfredol. Wrth ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad, byddwn yn disgwyl i CCAUC ystyried, lle bynnag y bo'n bosibl, y pwerau y bydd y Comisiwn yn gweithredu oddi tanynt o fis Awst 2024. Hoffwn i CCAUC ddyrannu cyllid sefydliadol fesul proses arferol ar gyfer y flwyddyn academaidd. Bydd y dyraniadau a'r rhagdybiaethau cynllunio hyn yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn maes o law.

## **Trefniadau Pontio'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**

9. Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu systemau a phrosesau sy'n ofynnol gan y Comisiwn newydd ac i ddiddymu CCACU. Mae swyddogion CCAUC wedi'u hintegreiddio'n llawn i'r ffrydiau gwaith a sefydlwyd i gyflawni'r gwaith hwn, gan ymgorffori eu gwybodaeth a'u harbenigedd helaeth, ac adeiladu arnynt. Mae arbenigedd swyddogion CCAUC yn hanfodol i gyflawni'r rhaglen waith. Mae'n bwysig iawn bod CCAUC yn parhau i ddarparu'r arbenigedd hwn yn ogystal â chymorth technegol a digidol ar gyfer sefydlu'r Comisiwn yn ymarferol. Bydd y costau ychwanegol a ysgwyddir drwy ddarparu'r cymorth hwn yn cael eu had-dalu gan Lywodraeth Cymru ar yr amod eu bod wedi cael eu cymeradwyo gan Uwch-swyyddog Cyfrifol y Rhaglen ymlaen llaw. Nid yw'r dyraniad ar gyfer y costau hyn wedi'i gynnwys yng nghyllideb CCAUC eto, ond bydd swyddogion yn ei gadarnhau ar wahân, gan gynnwys y trefniadau tynnu i lawr, os bydd angen.

## Iechyd Meddwl, Llesiant ac Amrywiaeth a Chynhwysiant

10. Rwy'n croesawu ymrwymiad a gwaith CCAUC i gefnogi iechyd meddwl a lles myfyrwyr a staff ar draws y sector, ac er nad wyf wedi neilltuo cyllid ar gyfer y cyfnod, rwy'n disgwyl ac yn annog CCAUC i barhau i gynnig cymorth. Yn yr un modd, mae ymdrechion i hyrwyddo a sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rwy'n disgwyl i' CCAUC barhau â'i waith clodwiw yn hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws y sector addysg uwch, gan gynnwys cefnogi datblygu a chyflawni cynlluniau cydraddoldeb strategol Llywodraeth Cymru a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

## Gradd-brentisiaethau

11. Rydym eisoes yn cyfuno gradd-brentisiaethau drwy ehangu i sectorau newydd a chynyddu llwybrau presennol sy'n cyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Serch hynny, rydym am ehangu cyrhaeddiad y cynnig, gan gefnogi dilyniant o brentisiaethau lefel is yn ogystal â chynyddu amrywiaeth a chynhwysiant.
12. Hoffwn i'r sector adeiladu ar drefniadau cydweithredol rhwng addysg uwch ac addysg bellach i alluogi cynnydd dysgwyr yn well, a sicrhau bod gennym y cydbwysedd cywir rhwng uwchsgilio'r gweithlu presennol a chefnogi newydd-ddyfodiaid – yn enwedig pobl ifanc sydd wedi cael eu taro'n galed gan yr amodau economaidd presennol. Cytunwyd ar gyfanswm o **£9.411m** i gefnogi'r gweithgaredd hwn, sy'n flaenoriaeth barhaus. Mae £5m wedi ei glustnodi o fewn dyraniad cyllid CCAUC. Nodwch y bydd £4.411m pellach yn cael ei ddyrannu yn ffurfiol yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2024-25, a bydd Atodiad A diwygiedig i'r llythyr yn cael ei gyhoeddi.

## Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

13. Mae'r maes ymchwil ac arloesi yn parhau i ddatblygu, wrth i fentrau newydd a chanlyniadau adolygiadau ar lefel y DU gael eu gweithredu ac i ymchwilwyr ac arloeswyr ymateb i gyfleoedd sy'n ymwneud â chysylltiad y DU â rhaglen Horizon Ewrop. Hoffwn i CCAUC barhau i gydweithio â'm swyddogion i alluogi prifysgolion Cymru i ddarparu ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel sy'n dod â manteision economaidd a chymdeithasol i Gymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu amgylcheddau a diwylliannau ymchwil cefnogol a chynhwysol sy'n denu unigolion a thimau talentog ac a fydd yn cyfrannu at lwyddiant prifysgolion Cymru wrth sicrhau cyllid grant cystadleuol o ffynonellau amrywiol. Bydd gofyn i'r Comisiwn fonitro ac adrodd ar effeithiolrwydd ei fuddsoddiad mewn ymchwil ac arloesi, yn ogystal â hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'i effaith ac rwy'n disgwyl i CCAUC barhau â'r gwaith a fydd yn hwyluso hyn.
14. Bydd gan CCAUC, a phan ddaw ei dro, y Comisiwn, rôl allweddol wrth weithredu'r Strategaeth Arloesi, *Cymru'n Arloesi*, ac wrth barhau i hyrwyddo arloesedd ledled Cymru. Hoffwn i CCAUC barhau i gydweithio â swyddogion ar ddatblygu cynllun

gweithredu ar gyfer y Comisiwn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r gorchwylion a nodir yn y strategaeth.

## Cyllid

15. Nodir manylion y grant cymorth/cyllideb adnoddau ar gyfer 2024-25 yn Atodiad A. Ar gyfer y gyllideb hon rwyf unwaith eto wedi clustnodi'r dyraniadau canlynol:

- £0.003m ar gyfer cyflog cyfartal i staff CCAUC; a
- £5m i barhau i ariannu'r gwaith o gyflawni ein rhaglen gradd-brentisiaethau.

## Cynllun Busnes ac Adrodd

16. Byddwn yn ddiolchgar pe gallwn gael Cynllun Busnes wedi'i ddiweddarau sydd wedi'i ymestyn i gwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2024 – 31 Gorffennaf 2024, ac sy'n nodi sut y byddwch yn cyflawni'r amcanion hyn. Mae'r cyllid a ddyrannwyd wedi'i gadarnhau ar gyfer 2024-25 yn unig. Cyflwynwch eich Cynllun Busnes estynedig i Craig Greenland, Pennaeth eich Tîm Partneriaeth, erbyn 31 Mai 2024.

17. Rwy'n ddiolchgar am y gwaith y mae CCAUC yn ei wneud mewn perthynas â monitro iechyd ariannol a chynaliadwyedd y sector. O ystyried bod y sector yn parhau i brofi effeithiau'r pandemig a heriau ariannol yr argyfwng costau byw parhaus, rwy'n disgwyl i CCAUC barhau i ddarparu diweddariadau rheolaidd a chyfrinachol i'm swyddogion ynghylch iechyd ariannol a'r risgiau cysylltiedig mewn sefydliadau.

## Gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

18. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'w holl gyrff cyhoeddus weithio'n gyson â'r pum ffordd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, mae CCAUC wedi cyhoeddi ei amcanion llesiant, ac mae'n ofynnol iddo ddangos tystiolaeth o gynnydd mewn adroddiad blynyddol. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.


## Trefniadau Goruchwylio

19. Bydd eich Tîm Partneriaeth yn parhau i gwrdd â chi i drafod trefniadau goruchwylio ac adrodd. Mae Llywodraeth Cymru yn gorchwyllo ar sail risg, gan weithio gyda'i chyrrff cyhoeddus i bennu'r lefel briodol o oruchwylio a monitro ar gyfer y corff dan sylw. Fodd bynnag, bydd y Tîm Partneriaeth yn cynnal asesiadau cyfnodol o'r sicrwydd risg sydd ar gael iddyn nhw.

20. Bydd y trefniadau hyn a'r cylch gwaith hwn yn parhau mewn grym cyhyd ag y bydd CCAUC yn parhau i weithredu, er y gellir diwygio'r cylch gwaith os bydd blaenoriaethau'r Gweinidogion yn newid ac wrth i'r cyfnod pontio i'r Comisiwn fynd rhagddo. Ar ddiwedd y cyfnod hwn bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu a throsglwyddir ei swyddogaethau a'i swyddogion i'r Comisiwn.

21. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai modd ichi gadarnhau eich bod wedi cael y cyllid hwn a'ch bod yn derbyn yr amodau ar gyfer cynnig y cyllid, ynghyd â chadarnhau y caiff y cyllid a glustnodwyd ar gyfer gweithgareddau penodol ei ddefnyddio at y dibenion a nodwyd ar gyfer ei ddyrannu.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a wavy line and a short horizontal stroke.

**Jeremy Miles AS/MS**

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language

## Atodiad 1

Nodir manylion dyraniadau Llinellau Gwariant CCAUC ar gyfer 2024-25 isod (£oedd):

<b>Cyllid</b>	<b>£m</b>
Refeniw	187.556
Dibrisiant nad yw'n arian parod	0.100
Cyfalaf - CCAUC	0.100
Cyfalaf -AU	10.000
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>£197.756</b>

Mae gwariant refeniw CCAUC yn gyfuniad o'r llinellau cyllidebol canlynol a oedd ar waith cyn 2017-18:

- Ar gyfer Ein Dyfodol;
- Costau rhedeg CCAUC;
- Derbyniadau CCAUC.

Bellach, cyfrifoldeb CCAUC yw penderfyniadau ar lefel y cyllid a ddyrennir i bob llinell wariant. Fodd bynnag, ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, rhaid i CCAUC roi amcangyfrif i Lywodraeth Cymru o'i gostau rhedeg am y flwyddyn ac amcangyfrif o'i dderbyniadau disgwylidig ar gyfer y flwyddyn. Bydd angen rheoli unrhyw ddiffyg mewn derbyniadau disgwylidig o fewn dyraniad cyllideb cyffredinol CCAUC, oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gyda Llywodraeth Cymru.

Mae Llinell Wariant Refeniw CCAUC yn cynnwys y dyraniadau canlynol:

- £5m ar gyfer Gradd-brentisiaethau;
- £0.003m ar gyfer cydraddoldeb cyflog.

Nodwch fod £4.411m pellach wedi'i gynllunio ar gyfer gradd-brentisiaethau, a bydd yn cael ei ddyrannu'n ffurfiol yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Atodol Gyntaf.

## **Atodiad 2**

### **Amodau'r Grant**

Bydd CCAUC yn cydymffurfio â thelerau'r Ddogfen Fframwaith a gytunwyd rhwng CCAUC a Llywodraeth Cymru, dyddiedig Medi 2014, neu ddogfen arall o'r fath a allai gael ei rhoi i CCAUC gan Lywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd.

### **Amod Cydlyniant Rhanbarthol**

Wrth arfer ei swyddogaethau i ddyrannu cyllid i ddarparwyr addysg uwch, rhaid i CCAUC roi sylw i gydlyniant rhanbarthol.